*This document is available in English* **Eitem 19 ar yr Agenda**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Tim Christensen**<br>**Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd** |
| Pwnc | **Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion ein Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi, sy'n darparu mesurau manwl ac amserlenni i liniaru'r allyriadau carbon sy'n deillio o wresogi ein hystad ar gyfer y cyfnod hyd at 2030.

**ARGYMHELLIAD**

2 Bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 O dan gyfraith Cymru, mae'n ofynnol i ni liniaru ein hôl troed carbon gweithredol erbyn 2030. Mae'r Cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r allyriadau yn sgil gwresogi ein hystad, gyda chynllun manwl i ddileu'r allyriadau hyn fel sy'n ofynnol o dan ein Strategaeth Amgylcheddol.

4 Mae'r cynllun yn cynnig rhoi terfyn ar osod neu wneud gwaith adnewyddu sylweddol ar systemau gwresogi sy'n defnyddio hydrocarbonau o ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Yn dilyn hyn, rydym yn bwriadu cynnal rhaglen raddol o amnewid y systemau nwy neu LPG presennol, y gofynnir amdani fel rhan o'r gyllideb ddrafft bob blwyddyn.

**CEFNDIR**

5 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno cyfres o gyllidebau carbon, gan nodi llwybr i Gymru fod yn genedl garbon-niwtral erbyn 2050. O dan Gyllideb Garbon 2, mae'n ofynnol i sector cyhoeddus Cymru fod wedi cyrraedd y nod hwn erbyn 2030.

6 Er mwyn cydymffurfio â'r uchelgais hon, mabwysiadodd yr Awdurdod Strategaeth Amgylcheddol ar 17 Gorffennaf 2023 ar gyfer y cyfnod 2023-2030. Ymhlith targedau eraill, roedd y strategaeth hon yn gorfodi

datblygu Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi, gan nodi sut y byddem yn lliniaru'r allyriadau carbon Cwmpas 1 (uniongyrchol) sy'n deillio o wresogi ein hystad.

7 Cafodd Gweithgor Aelodau ei gynnull rhwng Ebrill a Gorffennaf 2023 i roi gwybodaeth berthnasol i'r Aelodau ac i gael cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu cynlluniau datgarboneiddio manwl. Cymeradwyodd y grŵp hwn y strategaeth datgarboneiddio gwresogi a nodir yn yr adroddiad hwn.

**GWYBODAETH**

8 Mae'r Cynllun yn nodi ystod o dechnolegau carbon isel neu ddi-garbon a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer pob safle yn unigol. Y dull arfaethedig yw rhannu safleoedd yn ddau gategori yn seiliedig ar lefel eu defnydd.

9 Ar gyfer safleoedd sydd â lefelau uchel o ddefnydd – fel arfer gorsafoedd criw dydd a 24 awr, bydd dull cost uwch, uchel o ran effeithlonrwydd yn cael ei ddefnyddio. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys gosod pwmp gwres o'r aer.

10 Ar gyfer safleoedd is eu defnydd (gorsafoedd tân ar alwad fel arfer), byddwn yn anelu at osod systemau gwresogi trydan datganoledig sy'n costio llai ond yn llai effeithlon. Fel arfer, bydd y rhain yn cael eu gosod gyda rheolyddion wedi'u hamseru fel mai dim ond pan fydd lleoedd yn cael eu defnyddio neu os oes angen amddiffyn yr adeiledd rhag tymereddau allanol isel y mae gwres yn cael ei ddarparu.

11 Rydym yn bwriadu newid y systemau gwresogi presennol mewn rhaglen fesul cam, sy'n debygol o fod yn un safle defnydd uchel a thri safle defnydd isel y flwyddyn. Sefydlwyd Gweithgor gyda phersonél y Gwasanaeth i flaenoriaethu a chynllunio'r prosiectau hyn, gan ystyried oedran, effeithlonrwydd a chyflwr y systemau presennol.

12 Bydd y Gweithgor hwn hefyd yn archwilio anghenion gwresogi cilfachau parcio peiriannau yn y dyfodol, fesul achos.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Cynllun arfaethedig yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant datganedig yr Awdurdod. |
| Cyllideb | • Costau cyfalaf sylweddol i osod systemau gwresogi newydd, a amcangyfrifir i fod tua £600,000 y flwyddyn am y dyfodol hyd y gellir rhagweld. Fodd bynnag, mae llawer o'r |

| | |
|---|---|
| | systemau gwresogi presennol wedi hen gyrraedd diwedd eu hoes a bydd angen eu newid pan fyddant yn methu beth bynnag.<br>• Dylai costau rhedeg ar safleoedd mwy fod yn sylweddol is na'r systemau nwy ac LPG presennol. Bydd systemau trydan mewn safleoedd llai yn llai effeithlon yn weithredol ond rydym yn gobeithio lliniaru hyn drwy eu rheoli'n well a gosod paneli solar ffotofoltäig. |
| Cyfreithiol | Risg o beidio â chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| Staffio | Ni ragwelir unrhyw newidiadau i lefelau staffio o ganlyniad i'r Cynllun hwn |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ymgynghorwyd â'r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, ac ni chodwyd unrhyw faterion. |
| Risgiau | • Risgiau cyllidebol oherwydd cymhlethdod prosiectau unigol a'r angen posibl am ailweirio / gwaith arall.<br>• Bydd angen gwacáu gorsafoedd dros dro mewn llawer o achosion, gan greu risgiau gweithredol. Byddwn yn ymdrechu i ddarparu cyfleusterau amgen addas dros dro ar bob safle lle bynnag y bo modd er mwyn caniatáu i griwiau ac asedau gorsafoedd barhau i fod ar gael. |